TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Rhagfyr 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *'Fe wnes i sylwi bod llawer o drenau wedi cael eu canslo/dal yn ôl heddiw (Rhagfyr 9) oherwydd 'yr adnoddau sydd ar gael.'*
>
> *Allwch chi ddweud wrthyf fi beth yw ystyr 'yr adnoddau sydd ar gael'?* **[C1]**
>
> *Hefyd, allwch chi ddweud wrthyf os gwelwch yn dda:*
> *- sawl trên gafodd ei ganslo ar 9 Rhagfyr?* **[C2]**
> *- sawl trên gafodd ei ddal yn ôl ar 9 Rhagfyr?'* **[C3]**

## Atebion i'ch Cwestiynau

**C1. Beth yw ystyr 'yr adnoddau sydd ar gael'?**
'Yr adnoddau sydd ar gael' yw'r rheswm a roddir pan fydd yn rhaid canslo oherwydd nad yw Gyrrwr, Goruchwyliwr neu drên ar gael ar gyfer y gwasanaeth.

**C2. Sawl trên gafodd ei ganslo ar 9 Rhagfyr?**
Cafodd 52 o wasanaethau TrC eu canslo'n llwyr, a chanslwyd rhan o deithiau 75 o wasanaethau eraill.

**C3. Sawl trên gafodd ei ddal yn ôl ar 9 Rhagfyr?**
Oherwydd bod trenau'n cael eu dal yn ôl mewn rhai gorsafoedd ar reilffordd benodol ond nid mewn rhai eraill, mae'n fwyaf cywir darparu nifer y galwadau mewn gorsafoedd a gafodd eu dal yn ôl ar y diwrnod hwn. Rydyn ni'n diffinio "dal yn ôl" neu "oedi" fel tri munud neu fwy yn hwyr. O'r 7,198 o alwadau i orsafoedd a drefnwyd ar 9 Rhagfyr, cafodd gwasanaethau eu dal yn ôl wrth gyrraedd 2,394 o'r safleoedd hyn.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

## Trafnidiaeth Cymru

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".